Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

—

Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,

Fel y gwyddoch, gwnaeth adroddiad diweddar y Pwyllgor ynghylch effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru dynnu sylw at bwysigrwydd amseroedd prosesu cyflym ar gyfer canlyniadau profion, ac argymellwyd y dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr. Felly, rydym yn bryderus iawn ynglŷn â'r data diweddaraf ar amseroedd prosesu ar gyfer canlyniadau, yn enwedig o ran Unedau Profi Coronafeirws, lle y rhoddir blaenoriaeth i brofion ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal ond lle nad yw'r amseroedd prosesu lawer yn well na'r rhai ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol.

Er bod y ffigurau diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos gwelliant bach yn y newid canrannol ar gyfer prosesu o fewn 1 diwrnod (36.6 y cant o'i gymharu â 32 y cant yn yr wythnos flaenorol) ar gyfer Unedau Profi Coronafeirws, mae hyn mewn gwirionedd yn ostyngiad sylweddol o’i gymharu â’r ffigyrau ar gyfer yr wythnos sy’n dechrau ar 22 Mehefin, pan gafodd 46.4 y cant o brofion eu dychwelyd o fewn 1 diwrnod, a chynhaliwyd llawer mwy o brofion (10,878 o’u cymharu â 7,958). Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â phrofion a gynhaliwyd mewn ysbytai, lle mae’r amseroedd ar gyfer prosesu wedi parhau i wella ac ar hyn o bryd maent yn cael eu cofnodi ar gyfradd o 87.9 y cant a’u dychwelwyd o fewn 1 diwrnod.

Mae'r ffigurau ar gyfer canolfannau profi rhanbarthol yn peri mwy o bryder, gydag amseroedd prosesu sy’n gwaethygu yn hytrach na gwella, a dim ond 26.8 y cant yn cael eu dychwelyd o fewn 1 diwrnod, o’u cymharu â 40.9 y cant yr wythnos flaenorol (ac unwaith eto, cynhaliwyd llai o brofion – 5,252 o’u cymharu â 6,451).

Cydnabyddir yn helaeth bod sicrhau amseroedd prosesu cyflym yn allweddol ar gyfer olrhain cysylltiadau yn effeithiol, ac yn wir, mae Cell Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru ei hun yn dweud bod y cynlluniau olrhain mwyaf llwyddiannus yn golygu sicrhau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565


canlyniadau profion o fewn 24 awr. Bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ni agosáu at fisoedd y gaeaf, gyda'r pwysau ychwanegol a ddaw yn sgil hyn.

Oherwydd hyn, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael ymateb ar frys gennych mewn perthynas â'r canlynol:

- pa waith a wnaed i ymchwilio i achosion yr oedi mewn amseroedd prosesu, a beth yw canfyddiadau'r gwaith hwn?
- yn gysylltiedig â hyn, a oes problemau mewn rhanbarthau penodol, ac os felly pa ardaloedd neu ranbarthau yr effeithir arnynt yn benodol a beth yw achosion y problemau?
- a allwch chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i ymdrin â'r oedi?
- pa amserlenni neu gerrig milltir ar gyfer gwella rydych chi'n gweithio tuag atynt?
- os nad yw'r cerrig milltir hyn yn cael eu cyflawni, pa gamau eraill y byddwch yn eu cymryd?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**